# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwynfa II The Lodge**

**Bontnewydd**
**Caernarfon**
**LL54 7YH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gwynfa II The Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Gwynfa |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mai 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb


Mae darparwr y gwasanaeth bellach wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n dda a bod meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol wedi cael eu cyflawni. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr dros dro profiadol newydd wedi rhoi amrywiaeth o systemau sicrhau ansawdd ar waith i wella'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r cynllun rheoli ac atal cwympiadau bellach yn gadarn, mae arferion diogelu wedi cael eu hadolygu ac mae newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd diogel, glân ac addas sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n diwallu eu hanghenion corfforol. Caiff buddsoddiadau parhaus eu gwneud i ffabrig yr adeilad. Mae'r gwelliannau i'r cynllun rheoli meddyginiaeth yn sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn gyfeillgar, yn llawn cymhelliant ac yn adnabod y bobl yn dda iawn. Mae prosesau recriwtio'r staff bellach yn ddiogel. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu goruchwylio a'u hyfforddi'n briodol, a'u bod yn cael eu cefnogi gan reolwr dros dro a dirprwy reolwr sy'n weledol ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r tîm. Mae arferion atal a rheoli heintiau da ar waith.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff dogfen 'dyma fi' ei chwblhau ar gyfer bob preswylydd sy'n rhoi gwybod i'r staff am ddymuniadau, dyheadau, hobïau, diddordebau personol a bywydau blaenorol y bobl. Mae bwydlen amrywiol i'r bobl ddewis ohoni a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi'r bwyd. Mae prydau amgen ar gael os na fydd rhywun yn hoffi'r hyn sy'n cael ei weini. Gall y bobl aros yn eu hystafelloedd neu ddefnyddio'r lolfa gymunedol os dymunant. Gwelsom y staff yn cefnogi'r bobl a gellid gweld bod hyn wedi'i deilwra, ac mae'r staff gofal yn angerddol dros ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae amgylchedd y cartref bellach yn helpu'r bobl i sicrhau safon dda o ddiogelwch a llesiant. Mae lolfeydd cymunedol ar gael, lle mae'r bobl yn treulio amser yn cymdeithasu ag eraill yn ogystal â mynd i ardaloedd tawelach os byddant yn dymuno gwneud hynny. Roedd yr ystafelloedd gwely a welsom wedi'u personoli, gan adlewyrchu chwaethau a dewisiadau'r bobl, ac maent yn gartrefol. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd a'i gynnal a'i gadw er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel. Mae'r dodrefn yn gyfforddus ac o ansawdd da. Mae systemau da ar waith i reoli heintiau ac i gadw'r bobl a'r staff yn ddiogel.

Mae'r bobl yn ddiogel, ac mae'r staff yn eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r staff yn gwybod sut i gydnabod camdriniaeth a gallant gael gafael ar bolisi diogelu'r cartref sydd bellach yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol. Maent wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn ymwybodol o Ap Diogelu Cymru Gyfan, ac yn gwybod sut i godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae asesiadau risg unigol ar waith i helpu i leihau risg i'r bobl a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae archwiliadau cadarn a systemau cyfathrebu yn cadw'r bobl yn ddiogel.

Mae anghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl yn cael eu diwallu. Mae'r gofal a'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar risgiau ac anghenion penodol y bobl a chânt eu darparu gan staff a thîm rheoli ymrwymedig. Mae'r bobl yn hapus ac yn gyfforddus yn eu cartref a gwnaethant nodi eu bod yn fodlon ar y ffordd y maent yn cael eu cefnogi ac yn cael gofal. Dangosodd y tîm o staff ddealltwriaeth dda o anghenion a risgiau penodol bob unigolyn. Mae digon o staff ar ddyletswydd, a gwelsom y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu mewn ffordd gadarnhaol, sensitif a pharchus. Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd ystyrlon ac mae ganddynt agwedd ofalgar tuag at unigolion.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod y staff gofal yn gallu cael gafael ar gynllun personol cyfredol a chywir ar gyfer y ffordd o ddarparu eu gofal. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am ddewisiadau personol y bobl a chânt eu hadolygu o fewn y terfynau amser gofynnol neu pan fydd anghenion yr unigolyn wedi newid.  Mae cynlluniau personol y bobl yn disgrifio'r ffordd y caiff risgiau eu rheoli, tra'n rhoi ystyriaeth i'w hanghenion a'u dymuniadau. Caiff risgiau mewn perthynas â diogelwch y bobl fel cwympiadau eu hasesu'n drylwyr a chaiff yr asesiadau risg sydd ar waith eu hadolygu ar ôl digwyddiad er mwyn cefnogi'r bobl i fod mor ddiogel ac annibynnol â phosibl. Cysylltir â gweithwyr proffesiynol allanol megis y Tîm Rheoli Cwympiadau i gael cyngor lle y bo'n briodol. Mae system gyfathrebu gadarn fewnol bellach ar waith i rybuddio'r staff o unrhyw newidiadau i anghenion gofal y bobl.

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael a chânt eu cefnogi gan dîm o staff gofalgar ac ymrwymedig. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin â pharch a gofal. Mae'r staff gofal yn annog annibyniaeth y bobl a gwnaethant siarad â nhw mewn ffordd gadarnhaol. Gwnaethant eistedd a sgwrsio â nhw pan oedd cyfleoedd i wneud hynny a chymryd diddordeb yn yr hyn yr oeddent yn ei ddweud. Mae niferoedd priodol o staff ar ddyletswydd i alluogi'r bobl i gael y gofal sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Gwelsom y staff gofal yn siarad Cymraeg â'r bobl wrth roi gofal, sicrwydd a dewis.

Mae'r trefniadau rheoli meddyginiaeth bellach yn ddiogel. Cawsom gyfle i edrych ar sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth, a gwelsom eu bod yn cynnwys lluniau o'r bobl ac unrhyw alergeddau a oedd ganddynt. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd mewn modd amserol.  Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ac yn cael eu barnu'n gymwys cyn rheoli a gweinyddu meddyginiaeth. Caiff archwiliadau meddyginiaeth mewnol eu cwblhau'n rheolaidd.

Mae gan y cartref bolisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o heintiau. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ac mae yna arferion hylendid da ym mhob rhan o'r cartref. Gall y staff gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu'r bobl rhag heintiau a niwed yn glir.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gwiradau iechyd a diogelwch yn cael eu cofnodi a chaiff camau gweithredu eu cymryd. Aed i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â llesiant preswylwyr. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cynnal bob wythnos a phob mis. Gwelsom gofnodion yn cadarnhau bod profion PAT ar gyfarpar trydanol, cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, gwasanaethu'r system larwm tân a gwiriadau cyfarpar wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwnaed buddsoddiad i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae polion newydd wedi'u gosod i gefnogi'r feranda blaen ac mae'r ardal batio gaeedig bellach wedi cael sylw. Mae'r staff bellach wedi cael hyfforddiant ar iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf.

Mae'r rheolwr dros dro yn cwblhau archwiliadau misol o'r amgylchedd ac mae yna amserlenni glanhau trylwyr dyddiol ar waith i sicrhau bod pob rhan o'r cartref a'r cyfarpar yn lân. Mae hyn yn cynnwys cyfarpar ystafell ymolchi. Rhoddir gwybod am yr holl ardaloedd sydd angen sylw er mwyn i'r unigolyn cynnal a chadw i weithredu arnynt. Gwelsom fod eitemau a allai fod yn beryglus, megis cynnyrch glanhau,  yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo. Caiff cyfarpar ei storio mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y bobl yn aml, gan sicrhau nad oes rhwystrau ar y coridorau a'r drysau tân. Mae angen rhoi sylw i'r gwaith o lanhau'r carpedi yn ardal y prif risiau, gan eu bod wedi treulio ac wedi'u staenio, ac mae'r darparwr yn mynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth a'r prosesau sydd ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth wedi gwella'n fawr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol gyda chefnogaeth y rheolwr dros dro a'r dirprwy reolwr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy'n agored, yn gynhwysol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cyflawni canlyniadau da i'r bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn siarad yn rheolaidd â'r bobl, y perthnasau a'r staff ac yn cwblhau adroddiad manwl ar ei ymweliad. Mae archwiliadau mewnol misol mewn perthynas â phob agwedd ar y gwasanaeth bellach ar waith ac maent yn gadarn erbyn hyn. Caiff adroddiad rheoli misol ei rannu gyda'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r cofnodion cyfarfodydd staff yn dangos bod y tîm rheoli yn goruchwylio'r broses o redeg y gwasanaeth ac yn gweithredu i wella darpariaeth gyffredinol y gwasanaeth. Mae cynllun gweithredu personol y darparwr yn fanwl ac yn dangos yr aed i'r afael â sawl maes a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Er nad oedd disgwyl am ei adroddiad ar adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis eto, mae'r holiaduron wedi cael eu rhoi i'r bobl, eu perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol. Hyd yn hyn, mae'r adborth yn gadarnhaol iawn ac yn canmol y gofal.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff addas, hyfforddedig a chymwys. Mae'r broses o oruchwylio'r staff wedi gwella er mwyn sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiogel ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom fod y tîm rheoli yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r staff a'r bobl ac yn arwain drwy esiampl er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal urddasol wedi'i bersonoli. Mae trefniadau recriwtio'r staff bellach yn gadarn, ac mae'r cofnodion a welwyd yn dangos y caiff gweithdrefnau fetio priodol eu dilyn i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gwiriadau hunaniaeth ynghyd â geirdaon i gadarnhau eu bod o gymeriad da. Mae'r holl staff newydd bellach yn cwblhau cyfnod sefydlu sy'n briodol i'w rôl pan fyddant yn dechrau. Mae'r mwyafrif o'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae system archwilio newydd ar waith i sicrhau bod y trefniadau recriwtio staff yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'r cofnodion a welwyd yn ystod yr arolygiad hwn yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant craidd a hyfforddiant sy'n benodol ar gyfer y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y bobl a'u cadw'n ddiogel.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 6 | Mae sawl maes i'w gwella er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n ddiogel ac yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae angen i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod gofynion rheoliadol er mwyn cefnogi'r staff a goruchwylio'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben ac mewn modd diogel. | Cyflawnwyd |
| 35 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod systemau dethol a fetio trylwyr ar waith ar gyfer recriwtio. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | yr holl wybodaeth recriwtio berthnasol ar gael cyn i unigolion ddechrau gweithio. Mae angen gwella'r ffordd y caiff pobl eu recriwtio, gan gynnwys sicrhau bod aelodau o staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau gweithio yn y cartref a rhoi proses archwilio ar waith. | |
| 44 | Nid oes gan y darparwr archwiliad amgylchedd na chynllun cynnal a chadw cadarn ar waith ac nid yw wedi nodi meysydd sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch unigolion yn cael eu nodi a'u lleihau i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r staff wedi cael eu goruchwylio o fewn yr amserlenni rheoliadol gofynnol. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith y maent yn ei gyflawni. Rhaid i'r staff gael eu goruchwylio o leiaf bob tri mis. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn diwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr arferion Meddyginiaeth yn cael eu gwella. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod cyffuriau a reolir yn cael eu harchebu a bod y meddyginiaethau'n cael eu cofnodi er mwyn dangos eu bod wedi cael eu rhoi a bod effeithiau'r meddyginiaethau 'yn ôl yr angen' yn cael eu cofnodi. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/09/2024